# Canllawiau i archwilwyr achos

| |
|---|
| Statws y ddogfen: Terfynol |
| Fersiwn: 2 |
| Dyddiad cymeradwyo: Hydref 2025 |
| Ar waith o: Rhagfyr 2025 |
| Perchennog: Claire Marchant-Williams |
| Awdur: Claire Marchant-Williams |
| Dyddiad adolygu arfaethedig nesaf: Rhagfyr 2028 |

## Cynnwys


Diben y canllawiau hyn ..... 3
Diffiniadau ..... 4
Y Cyngor Optegol Cyffredinol ..... 4
Yr archwilwyr achos ..... 4
Ystyriaeth gychwynnol i achosion ..... 4
Cau achosion yn gynnar ..... 6
Gorchmynion interim ..... 6
Ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau ..... 7
Hanes blaenorol o addasrwydd i ymarfer ..... 11
Honiadau o ymddygiad gwahaniaethol ..... 12
Honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer ..... 13
Atgyfeirio Honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ..... 15
Canllawiau ynghylch rhybuddion a roddir gan yr archwilwyr achos ..... 19
Canlyniadau posibl eraill ..... 21

## Diben y canllawiau hyn

1. Mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol yn cydnabod ei bod yn bwysig bod cleifion, cofrestreion, sefydliadau proffesiynol a chynrychiadol, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y cyhoedd, yn ymwybodol o’r sail y mae archwilwyr achos y Cyngor Optegol Cyffredinol yn gweithredu arni ac yn gwneud penderfyniadau am adroddiadau addasrwydd i ymarfer.

2. Mae’r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i archwilwyr achos y Cyngor Optegol Cyffredinol eu defnyddio wrth ystyried cwynion am addasrwydd un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol i ymarfer, i ymgymryd â hyfforddiant neu i redeg busnes optegol. Bwriedir i’r canllawiau annog archwilwyr achos i wneud penderfyniadau cyson. Fodd bynnag, bydd pob penderfyniad a wneir gan yr archwilwyr achos yn seiliedig ar ffeithiau’r achos sy’n cael ei ystyried.

3. Mae’r Rheolau Addasrwydd i Ymarfer (2013) (Y Rheolau) yn diffinio archwiliwr achos fel un o swyddogion y Cyngor a benodir gan y Cofrestrydd ar ran y Cyngor at ddibenion arfer swyddogaethau’r Pwyllgor Ymchwilio (IC), yn unol â’r rheolau hyn, fel optometrydd neu optegydd cyflenwi cofrestredig, neu leygwr.

4. Mae’r canllawiau hyn yn ddogfen gyhoeddus sydd ar gael ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn:

   Sut rydym yn ymchwilio i bryder

5. Gall adroddiad am addasrwydd un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol i ymarfer hefyd, ar wahanol gamau ym mhroses y Cyngor Optegol Cyffredinol, gael ei ystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae’r canllawiau hyn yn cynnwys rhai cyfeiriadau at eu rolau. Mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd wedi cyhoeddi canllawiau tebyg ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio a’r Paneli Addasrwydd i Ymarfer. Mae’r dogfennau canllaw hyn yn ddogfennau cyhoeddus sydd ar gael ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn:

   Sut rydym yn ymchwilio i bryder

6. Rhaid i optometryddion ac optegwyr cyflenwi unigol fod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol cyn dechrau ymarfer. Yn ogystal, mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheoleiddio optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr y mae'n rhaid iddynt fod wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol er mwyn ymgymryd â hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae tua 35,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol wedi’u cofrestru â ni.

## Diffiniadau

7. Drwy gydol y ddogfen hon:

Mae “**honiad**” yn cyfeirio at gŵyn am:

- addasrwydd busnes cofrestredig i gynnal busnes;
- addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer; neu
- addasrwydd myfyriwr cofrestredig i ymgymryd â hyfforddiant,

Mae “**busnes cofrestredig**” yn cyfeirio at gorff corfforedig sydd wedi’i gofrestru â’r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Mae “**manylion penodol**" yn cyfeirio at y ffeithiau honedig sy'n gyfystyr â honiad.

Mae “**addasrwydd i ymarfer**” yn cyfeirio at addasrwydd:

- optometryddion neu optegwyr cyflenwi cofrestredig i ymarfer;
- optometryddion neu optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant i ymgymryd â hyfforddiant; neu
- fusnesau cofrestredig (busnesau optegol sydd wedi’u cofrestru â’r Cyngor Optegol Cyffredinol) i gynnal busnes.

Mae “**unigolyn cofrestredig**” yn cyfeirio at unigolyn sydd wedi’i gofrestru â’r Cyngor Optegol Cyffredinol.

### Diwygio’r canllawiau

8. Bwriedir i’r canllawiau hyn fod yn ‘ddogfen fyw’. Caiff ei diwygio fel y bo’n briodol, gan ystyried materion fel datblygiadau cyfreithiol, gan gynnwys diwygio/cyflwyno deddfwriaeth a chyfraith achosion newydd. Bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn adolygu’r canllawiau hyn bob tair blynedd neu yn ôl yr angen.

9. Bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn tynnu sylw at unrhyw ddiwygiadau sylweddol i’r canllawiau hyn drwy gyhoeddi’r fersiwn ddiwygiedig ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol www.optical.org.

## Y Cyngor Optegol Cyffredinol

10. Mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol yn un o 13 o sefydliadau yn y DU sy'n cael eu galw’n rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae’r sefydliadau hyn yn goruchwylio’r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol (a busnesau cofrestredig mewn rhai achosion). Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw’r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU.

11. Mae cyfansoddiad, dibenion a swyddogaethau'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi'u nodi yn Neddf Optegwyr 1989 Y Cyngor Optegol Cyffredinol sy'n gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel o ran addysg, ymddygiad a pherfformiad proffesiynol ymhlith gweithwyr optegol proffesiynol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Prif swyddogaethau statudol y Cyngor Optegol Cyffredinol yw:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad, ac ymddygiad;
- cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- cadw cofrestrau o unigolion sy'n gymwysedig ac yn addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi;
- cadw rhestrau o gyrff corfforedig sy'n cynnal busnes fel optegwyr offthalmig neu optegwyr cyflenwi;
- ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd busnes cofrestredig neu unigolyn cofrestredig i ymarfer.

12. Gall y Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd weithredu os caiff y cyfreithiau sy'n ymwneud â gwerthu teclynnau optegol, neu brofi golwg, eu torri ac os bydd risg i'r cyhoedd. Mae protocol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar Ymchwilio i Droseddau a'u Herlyn yn nodi rôl y Cyngor yn y broses hon ac mae ar gael o:

Sut rydym yn ymchwilio i bryder

13. Mae gwybodaeth am broses gwyno'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi'i nodi yn y daflen o'r enw "Sut i gwyno am optegydd" sydd ar gael o:

Sut i fynegi pryder am optegydd

14. Bob blwyddyn, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad cyffredinol ar ei holl weithgareddau, sy'n cynnwys adroddiad penodol ar faterion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, ynghyd â gwybodaeth ystadegol am nifer y cwynion, a'r mathau o gwynion, y mae'r sefydliad wedi'u hystyried. Mae adroddiadau blynyddol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gael o:
Chwilio drwy adnoddau a chyhoeddiadau

Dim ond lleiafrif o'r cwynion a wneir i'r Cyngor Optegol Cyffredinol a fydd yn arwain at atgyfeiriad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FTPC)[1]. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu nad oes angen cymryd camau pellach neu y gellir delio â'r mater yn briodol drwy roi rhybudd neu gyngor i'r cofrestrai.

[1] Ar gyfartaledd, mae 30% o'r achosion a agorwyd i ymchwiliad yn cael eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

## Yr archwilwyr achos

15. Mae'r rheolau'n nodi pwy sy'n gallu bod yn archwiliwr achos a'r gweithdrefnau gwneud penderfyniadau i'w dilyn. Mae archwiliwr achos yn un o swyddogion y Cyngor a benodir gan y Cofrestrydd ar ran y Cyngor. Bydd archwiliwr achos yn optometrydd cofrestredig, yn optegydd cyflenwi cofrestredig neu'n lleygwr.

16. Caiff y penderfyniad ar ddiwedd y cam ymchwilio ei wneud gan un archwiliwr achos cofrestredig ac un archwiliwr achos sy'n gweithio o bapurau yn unig. Rhaid i benderfyniad yr archwilwyr achos fod yn unfrydol ac, os na fydd yr archwilwyr achos yn cytuno, y Pwyllgor Ymchwilio fydd yn penderfynu ar y mater.

17. Bydd yr archwilwyr achos yn gallu cael cyngor cyfreithiol annibynnol. Bydd archwilwyr achos hefyd yn gallu cael cyngor arbenigol, er enghraifft, gan offthalmolegydd.

18. Bydd yr archwilwyr achos yn ystyried achosion yn breifat. Mae pwerau'r archwilwyr achos wedi'u nodi yn Rheolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol[2].

## Ystyriaeth gychwynnol i achosion

19. I ddechrau, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer a ddaw i law y Cyngor Optegol Cyffredinol[3]. Rhaid i'r Cofrestrydd ystyried a ddylid atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer er mwyn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn interim.

20. Os bydd y Cofrestrydd o'r farn **nad** yw'r honiad yn cyd-fynd ag un o'r seiliau a ddisgrifir yn adran 13D o'r Ddeddf Optegwyr, bydd yn hysbysu'r achwynydd a chaiff yr achos ei gau.

21. Os bydd y Cofrestrydd o'r farn bod yr honiad yn cyd-fynd ag un neu fwy o'r seiliau a ddisgrifir yn adran 13D o'r Ddeddf Optegwyr (gweler paragraff 91 am arweiniad pellach), bydd yn rhaid iddo atgyfeirio'r honiad at yr archwilwyr achos i'w ystyried o dan Reol 12.

22. Rhaid i'r Cofrestrydd atgyfeirio honiad sy'n ymwneud ag euogfarn sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar, boed ar unwaith neu wedi'i hatal, at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

---

[2] Crëwyd drwy ddirprwyo swyddogaethau'r Pwyllgor Ymchwilio o dan adran 13E(i) o Ddeddf Optegwyr 1989

[3] Yn unol â Rheol 4 o Reolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol

23. Cyn i'r archwilwyr achos ystyried yr honiad, mae'n bosibl y bydd tîm ymchwilio'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi ymchwilio ymhellach i'r mater a chasglu rhagor o dystiolaeth.

## Cau achosion yn gynnar

24. Wrth ystyried honiad, gall yr archwilwyr achos benderfynu'n unfrydol y dylid cau rhai categorïau o achosion na fyddai er budd y cyhoedd iddynt fynd drwy'r weithdrefn addasrwydd i ymarfer. Mae'r categorïau o achosion fel a ganlyn:

- Honiad sy'n deillio o ddigwyddiadau a ddigwyddodd fwy na phum mlynedd cyn i'r mater gael ei ddwyn i sylw'r Cyngor Optegol Cyffredinol (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol).

- Honiad sy'n cael ei wneud gan achwynydd sy'n dymuno aros yn ddienw neu sydd wedi nodi nad yw'n dymuno cydweithredu ymhellach (er bod rhaid i archwilwyr achos gadw mewn cof bwerau ymchwilio'r Cyngor Optegol Cyffredinol ei hun fel y nodir yn adran 13D); neu

- Unrhyw honiad y mae'r archwilwyr achos yn ystyried ei fod yn flinderus ei natur.

## Gorchmynion interim

25. Mae gorchymyn interim yn fesur dros dro y gellir ei osod ar gofrestrai tra bo ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn mynd rhagddo. Ei ddiben yw rheoli risg lle mae pryderon difrifol am ymddygiad, iechyd neu berfformiad cofrestrai, a lle gallai fod angen cyfyngu ar ei allu i ymarfer neu ei atal dros dro, diogelu'r cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, cynnal safonau proffesiynol priodol neu ddiogelu'r cofrestrai ei hun. Nid yw gorchmynion interim yn ganfyddiad o amhariad na drwgweithredu. Mesurau rhagofalus yw'r rhain gyda'r bwriad o liniaru risgiau posibl yn ystod y broses ymchwilio.

**Cwmpas Gorchymyn Interim**

26. Gall gorchymyn interim wneud y canlynol:

- Atal cofrestrai o'i bractis yn llwyr
- Dileu cofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd neu hyfedredd dros dro
- Gosod amodau ar ymarfer cofrestrai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â mesurau penodol a osodir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FTPC)

27. Gall gorchymyn interim barhau mewn grym am uchafswm o 18 mis, oni chaiff ei ymestyn gan y llys perthnasol, a bydd yn destun adolygiadau rheolaidd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Diben Gorchymyn Interim**

28. O dan adran 13L o Ddeddf Optegwyr 1989, caiff y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer osod gorchymyn interim os yw'n fodlon ei fod:

- Yn angenrheidiol er mwyn diogelu’r cyhoedd
- Er budd y cyhoedd fel arall
- Er budd y cofrestrai

29. Mae'r prawf statudol hwn ar wahân i rôl archwilwyr achos, sef cyfarwyddo'r Cofrestrydd i gyfeirio mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer i'w ystyried ar orchymyn interim. Nid yw archwilwyr achos yn penderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim. Yn hytrach, maent yn asesu a yw'r risgiau'n ddigon difrifol i gyfiawnhau atgyfeiriad gan y Cofrestrydd.

**Cyfarwyddo atgyfeiriad Gorchymyn Interim**

30. Wrth ystyried a ddylid cyfeirio atgyfeiriad gan y Cofrestrydd, rhaid i archwilwyr achos wneud y canlynol:

a) Asesu risg
Gwerthuso a oes risg wirioneddol neu bosibl i’r canlynol:
- Diogelwch y cyhoedd
- Llesiant y cofrestrai ei hun
- Ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol

fel y gall fod angen gorchymyn interim yn ystod yr ymchwiliad.

b) Ystyried y seiliau statudol
Cyfeirio at y seiliau statudol yn adran 13L, fel y nodir ym mharagraff 28;

c) Canolbwyntio ar ddifrifoldeb a risg;
Penderfynu a yw'r pryderon yn ddigon difrifol ac yn cyflwyno risg sy'n gyfredol ac yn barhaus (yn hytrach nag yn hanesyddol neu'n ddamcaniaethol) i gyfiawnhau cyfarwyddyd ar gyfer atgyfeiriad. Nid yw archwilwyr achos yn penderfynu ar gymesuredd gorchymyn interim — mater i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yw hynny.

d) Cydnabod amseru a hyblygrwydd
Efallai y bydd angen gorchmynion interim ar unrhyw gam o'r broses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys yn gynnar mewn ymchwiliad, hyd yn oed cyn cael datganiadau tystion ffurfiol, lle mae'r risg yn cyfiawnhau camau brys.

**Y broses atgyfeirio**

31. Os yw'r naill archwiliwr achos neu'r llall yn credu y dylai'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ystyried gosod gorchymyn interim, rhaid iddynt gyfeirio'r mater at y Cofrestrydd yn unol ag adran 13D(9) o Ddeddf Optegwyr 1989.

32. Yna bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ac yn rhoi gwybod i'r partïon dan sylw.

## Ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau

**Ymchwiliad pellach**

33. Ar unrhyw adeg cyn gwneud penderfyniad terfynol, gall yr archwilwyr achos ohirio eu hystyriaeth o achos os oes angen mwy o ymchwilio. Byddant yn rhoi gwybod i'r Cofrestrydd, a fydd yn cynnal yr ymchwiliad. Bydd unrhyw dystiolaeth newydd yn cael ei rhannu â'r cofrestrai a, lle bo hynny'n briodol. Gyda'r person a wnaeth yr honiad, gan roi cyfle teg iddynt ymateb. Bydd y Cofrestrydd wedyn yn trosglwyddo'r dystiolaeth ychwanegol ac unrhyw sylwadau i'r archwilwyr achos, a fydd yn parhau i ystyried yr achos.

**Diwygio honiadau**

34. Os bydd yr archwilwyr achos, wrth ystyried yr honiadau, o’r farn y gall fod tystiolaeth (naill ai o’r gŵyn a wnaed i’r Cyngor Optegol Cyffredinol neu o unrhyw ymchwiliad pellach) o honiadau na chawsant eu cynnwys gan y Cofrestrydd, neu y dylid diwygio’r honiadau, dylai’r archwilwyr achos ohirio eu hystyriaeth o’r achos a rhoi gwybod i’r Cofrestrydd. Rhaid i archwilwyr achos beidio â chynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Wedyn, gall y Cofrestrydd ystyried y materion a godwyd ac a ddylid drafftio honiadau ychwanegol neu amgen i’r archwilwyr achos eu hystyried. Yna, ar ôl i’r cofrestrai gael cyfle i ymateb i unrhyw honiadau/tystiolaeth newydd neu ddiwygiedig (Rheol 12), gall yr archwilwyr achos ailddechrau ystyried y mater.

**Y broses gwneud penderfyniadau**

35. Rhaid i benderfyniadau a wneir gan yr archwilwyr achos fod yn glir ac wedi'u dogfennu'n dda. Mae hyn yn golygu:

a) Rhaid i'r archwilwyr achos roi rhesymau manwl, ysgrifenedig dros eu penderfyniadau;
b) Dylai'r rhesymeg egluro'n glir sut mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r penderfyniad, gan sicrhau bod y cofrestrai a'r cyhoedd yn gallu deall sail y canlyniad; a
c) Rhaid i'r broses fod yn atebol, gyda mecanweithiau clir ar gyfer herio penderfyniadau lle bo angen.

**Ystyriaethau ar gyfer gwneud honiadau**

36. Wrth wneud eu penderfyniad ynglŷn â honiad penodol, bydd yr archwilwyr achos yn ystyried nid yn unig yr honiad gwreiddiol, ac unrhyw dystiolaeth y bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol wedi’i chasglu, ond hefyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan y cofrestrai dan sylw a’r sawl a wnaeth yr honiad lle bo hynny’n briodol. Mae’r rheolau’n datgan ei bod yn rhaid i gofrestrai gael copïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau a ddaw i law i gefnogi’r honiad, a chyfnod o 28 diwrnod i wneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig cyn i’r archwilwyr achos ystyried yr honiad(au).

**Unioni**

37. Er bod yn rhaid i archwilwyr achos gymryd honiadau o ddifrif, gall fod yn berthnasol iddynt feddwl am y potensial ar gyfer unioni pan fyddant yn ystyried amhariad, yn enwedig pan nad oes anghydfod ynghylch y ffeithiau. Fodd bynnag, dylai archwilwyr achos fod yn ofalus wrth werthuso dirnadaeth neu gamau unioni mewn achosion lle gwrthwynebir yr honiadau, o ystyried nad ydynt yn gwneud canfyddiadau ffeithiol

(gweler paragraff 59)

Lle bo'n briodol, gall archwilwyr achos ystyried a ddigwyddodd y canlynol:

- Mae'r cofrestrai wedi cydnabod y pryderon ac wedi dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o ddifrifoldeb posibl yr honiadau, hyd yn oed os oes anghytundeb yn eu cylch;
- Mae'r cofrestrai wedi cymryd camau a allai leihau'r risg o ailadrodd (fel myfyrio, hyfforddiant ychwanegol, neu oruchwyliaeth), boed hynny fel rhagofal neu gydnabyddiaeth o anghenion dysgu;
- Mae'n debygol y gellir mynd i'r afael â'r pryderon ac nad ydynt yn debygol o gael eu hailadrodd, yn enwedig os yw'r cofrestrai wedi cymryd camau dilys a chymesur i fynd i'r afael ag unrhyw faterion perthnasol.
- Mae'r cofrestrai eisoes wedi cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r pryderon ers y digwyddiadau sylfaenol;
- Gall unioni fod yn fwy heriol mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, lle mae'r pryderon yn ddifrifol, yn barhaus, neu'n agweddol). Fodd bynnag, rhaid ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau ei hun, ac ni ddylid diystyru'r posibilrwydd o unioni ymlaen llaw.

**Rôl yr achwynydd**

38. Bydd yr archwilwyr achos hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau y bydd yr achwynydd yn eu gwneud ar ôl iddo ef/hi weld unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y cofrestrai. Bydd y cofrestrai hefyd yn cael copïau o unrhyw sylwadau gan yr achwynydd.

**Tystiolaeth**

39. Rhaid i archwilwyr achos asesu perthnasedd a digonolrwydd y dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â phob honiad penodol. Er nad yw *swmp* y dystiolaeth, ynddo'i hun, yn dangos a yw'r prawf posibilrwydd realistig yn cael ei fodloni, mae *math* ac *ansawdd* y dystiolaeth yn ystyriaethau pwysig wrth werthuso ei grym perswâd a'i phwysau.

40. Nid yw maint cyffredinol y dystiolaeth ond yn berthnasol i'r broses benderfynu os bydd archwilwyr achos yn penderfynu nad yw'n ddigonol iddynt wneud penderfyniad, ac os felly gallant ohirio i ofyn am ragor o dystiolaeth. Fodd bynnag, dylai archwilwyr achos osgoi cael eu dylanwadu gan swmp y deunydd oni bai ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i asesu honiad.

41. Nid yw cyfathrebu a gwahaniaethau diwylliannol bob amser yn amlwg o ddeunydd ysgrifenedig. Dylai archwilwyr achos gydnabod y gall ffactorau fel diwylliant, ffydd, anabledd neu nodweddion eraill effeithio ar sut mae unigolion yn ymgysylltu â'r broses addasrwydd i ymarfer ac yn cyfathrebu â'r Rheoleiddiwr. Lle bo'n briodol, dylai archwilwyr achos ystyried y ffactorau hyn wrth asesu tystiolaeth ysgrifenedig a phenderfynu ar y pwysau i'w roi arni.

42. Dylai archwilwyr achos hefyd ystyried y gall ysgrifennu mewn ail iaith effeithio ar gywirdeb, y dewis o eiriau, a sut mae gwybodaeth yn cael ei strwythuro. Gall anableddau, gan gynnwys niwroamrywiaeth, hefyd ddylanwadu ar gyfathrebu ysgrifenedig, er enghraifft drwy ddehongliadau llythrennol neu arddulliau sy'n ymddangos yn ddi-flewyn-ar-dafod neu'n rhy uniongyrchol.

**Effaith gronnol pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer**

43. Efallai y bydd achosion sy'n ymwneud â phryderon ynglŷn â sawl agwedd ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer. Wrth wneud penderfyniad, rhaid i archwilwyr achos ystyried effaith gronnus pob ffactor a allai amharu. Mae asesiadau iechyd a pherfformiad yn rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth (ar gyfer unigolion cofrestredig), ond mae'n bosibl hefyd y bydd tystiolaeth arall y bydd angen i'r archwilwyr achos ei hystyried wrth ddod i benderfyniad. Os bydd y manylion ffeithiol yn ymwneud â nifer o agweddau ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer, dylai'r archwilwyr achos gynnwys yn eu penderfyniad gyfeiriadau at unrhyw sylwadau neu dystiolaeth benodol y byddant wedi'u hystyried sy'n gysylltiedig â'u penderfyniad.

**Diystyru barn arbenigol**

44. Os bydd penderfyniadau'r archwilwyr achos yn diystyru barn arbenigol ddiamheuol, naill ai'n llawn neu'n rhannol, bydd yn rhaid iddynt roi rhesymau clir iawn dros hyn. Rhaid i'r archwilwyr achos hefyd gofio nad gwneud penderfyniadau ynghylch y ffeithiau yw eu rôl nhw, dim ond penderfynu a yw'r prawf posibilrwydd realistig wedi'i fodloni (gweler paragraff 59 am arweiniad ar y prawf posibilrwydd realistig).

**Canlyniadau posibl ystyriaeth yr archwilwyr achos o honiad**

45. Mae canlyniadau gwahanol posibl yn deillio o ystyriaeth yr archwilwyr achos o honiad:

- atgyfeirio'r achos at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer;
- atgyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio, er enghraifft, os na fydd yr archwilwyr achos yn gallu dod i benderfyniad unfrydol;
- mater rhoi rhybudd i'r cofrestrai;
- penderfynu peidio â chymryd camau pellach, gan gynnwys rhoi cyngor i'r cofrestrai ar ei ymddygiad yn y dyfodol; neu
- penderfynu peidio â chymryd camau pellach

Nodir rhagor o wybodaeth am bob un o'r canlyniadau posibl hyn yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn, gan ddechrau ym mharagraff 64.

**Budd y cyhoedd**

46. Rhaid i archwilwyr achos bob amser ystyried budd ehangach y cyhoedd wrth wneud eu penderfyniadau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i fuddiannau unigol yr achwynydd neu'r cofrestrai ac mae'n cynnwys:

- gwarchod aelodau o’r cyhoedd
- cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn; a
- datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol.

Er y bydd archwilwyr achos yn ystyried y pryderon penodol a godwyd gan yr achwynydd fel rhan o'u hasesiad o'r dystiolaeth, mae prawf budd y cyhoedd yn ehangach ac yn canolbwyntio ar y proffesiwn yn ei gyfanrwydd. Nid datrys cwynion unigol yw'r bwriad, ond sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal, a bod y cyhoedd yn gallu ymddiried yr ymdrinnir â phryderon yn deg ac yn gymesur.

## Hanes blaenorol o addasrwydd i ymarfer

**Perthnasedd hanes addasrwydd i ymarfer**

Dylai'r archwilwyr achos ystyried hanes blaenorol cofrestrai o ran addasrwydd i ymarfer lle bo hynny'n berthnasol i'r honiadau presennol. Mae perthnasedd hanes blaenorol yn dibynnu ar natur, amseriad a thebygrwydd materion yn y gorffennol ac ymateb y cofrestrai iddynt. Gall yr archwilwyr achos ofyn am ragor o fanylion gan y swyddog ymchwilio os y bu hanes blaenorol.

**Goblygiadau hanes addasrwydd i ymarfer**

47. Gall hanes blaenorol o addasrwydd i ymarfer helpu'r archwilwyr achos gyda'r canlynol:

- Nodi unrhyw batrymau ymddygiad a allai awgrymu risg barhaus i gleifion, y cyhoedd neu hyder y cyhoedd.
- Asesu a yw cofrestrai wedi methu â dysgu o ganfyddiadau neu ymyriadau rheoleiddiol yn y gorffennol nac ymateb yn briodol iddynt.
- Llywio cymesuredd unrhyw ganlyniad arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â rhybuddion, neu gyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

**Ystyriaethau pellach ar gyfer hanes addasrwydd i ymarfer**

48. Wrth ystyried beth yw hanes perthnasol, dylai archwilwyr achos ystyried:

- Cyngor blaenorol, rhybuddion (wedi'u cyhoeddi neu heb eu cyhoeddi), amodau ymarfer, gwaharddiadau dros dro, neu ganfyddiadau o amhariad.

- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers digwyddiadau blaenorol ac a yw'r cofrestrai wedi dangos dirnadaeth, unioni neu gydymffurfiaeth ers hynny.

- A oedd yr hanes blaenorol yn ymwneud â chanfyddiadau ffeithiol neu a gafodd ei ddatrys yn gynharach heb benderfyniad ffurfiol.

**Pryd i fod yn ofalus**

49. Dylai'r archwilwyr achos fod yn ofalus wrth ystyried achosion lle na wnaed unrhyw ganfyddiadau ffeithiol. Gall y rhain roi cipolwg cyfyngedig oni bai eu bod yn rhan o batrwm ymddygiad. Yn yr un modd, ni ddylai'r archwilwyr achos roi pwys ar gwynion a phryderon a gaewyd heb unrhyw gamau pellach, heb gyngor, rhybudd neu honiadau hanesyddol na ymchwiliwyd iddynt na'u cadarnhau, oni bai eu bod yn berthnasol i batrwm o faterion tebyg.

**Cofnodi'r broses o wneud penderfyniadau**

50. Lle mae hanes blaenorol o addasrwydd i ymarfer wedi cael ei ystyried wrth wneud penderfyniad, rhaid cofnodi'r rhesymeg yn glir ym mhenderfyniad yr archwilydd achos. Mae hyn yn sicrhau tryloywder, cysondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau.

## Honiadau o ymddygiad gwahaniaethol

51. Rhaid trin pob honiad o ymddygiad gwahaniaethol yn ddiduedd, ar sail tystiolaeth yn unig. Rhaid i'r archwilwyr achos sicrhau nad yw tueddfryd na rhagfarn bersonol, nac unrhyw ddylanwad allanol yn effeithio ar yr ymchwiliad na'r broses o wneud penderfyniadau.

**Ffactorau wrth ystyried honiadau o ymddygiad gwahaniaethol**

52. Wrth ystyried honiadau o ymddygiad gwahaniaethol, dylid ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- Bwriad ac effaith: dylid gwerthuso'n ofalus y bwriad y tu ôl i'r ymddygiad a'r effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol a gafodd ar yr achwynydd, cydweithwyr, cleifion, aelodau o'r cyhoedd neu enw da'r proffesiwn. Hyd yn oed os nad oedd yr ymddygiad gwahaniaethol yn fwriadol, gallai'r niwed a achosodd fod yn sylweddol o hyd.

- Difrifoldeb ac amlder: a yw ymddygiad gwahaniaethol yn rhan o batrwm ymddygiad mwy, ynteu ai digwyddiad unigol ydoedd?

- Tystiolaeth o ddirnadaeth ac unioni: a yw'r cofrestrai wedi dangos edifeirwch gwirioneddol am ei weithredoedd? A yw wedi cymryd camau i addysgu ei hun am effaith ei ymddygiad, ac a yw unrhyw unioni yn gymesur â'r honiad(au)?

- Tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto: ystyried a yw ymddygiad y cofrestrai yn debygol o gael ei ailadrodd, yn enwedig mewn achosion lle nad yw'r cofrestrai wedi dangos fawr ddim dealltwriaeth, os o gwbl, o natur niweidiol ei ymddygiad.

- Hyder y cyhoedd yn y proffesiwn: rhaid ystyried difrifoldeb y camymddwyn, yn enwedig os yw'n targedu unigolion agored i niwed, mewn perthynas ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn. Os yw hyder y cyhoedd wedi cael ei danseilio'n ddifrifol, mae atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn fwy tebygol.

- Rhaid i'r archwilwyr achos fod yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor Optegol Cyffredinol a'i ddilyn. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, mae'n gynhwysol ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac i roi gweithdrefnau a phrosesau ar waith sy'n deg, yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn rhydd o wahaniaethu. Mae hyrwyddo cydraddoldeb hefyd yn ofynnol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn y DU– mae disgwyl i bawb sy'n gweithredu ar ran y Cyngor lynu at ysbryd a llythyren y ddeddfwriaeth hon.

- Rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â honiadau o ymddygiad gwahaniaethol fod yn gyson ag achosion blaenorol; dylai'r archwilwyr achos ystyried natur, cyd-destun ac effaith yr ymddygiad gwahaniaethol.

## Honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer

### Perthnasedd lleoliad daearyddol a statws cofrestru

53. Gall honiad o amhariad, neu amhariad posibl, ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer ymwneud â gweithredoedd neu anweithredoedd a ddigwyddodd y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu ar adeg pan nad oedd y cofrestrai hwnnw wedi'i gofrestru[4],o fewn ymarfer proffesiynol a thu allan iddo.

### Amlinellu'r sail dros amhariad

54. Dim ond ar rai seiliau penodol a nodir yn Adran 13D (2) a (3) o Ddeddf Optegwyr 1989 y gall fod amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer. Mae'r seiliau hynny'n amrywio, yn dibynnu ar b'un a yw'n fusnes cofrestredig, yn fyfyriwr cofrestredig neu'n ymarferydd unigol[5]. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu'r egwyddorion canlynol o ran y cysyniad o 'gamymddwyn' a 'perfformiad proffesiynol diffygiol'[6]

---

[4] Adran 13D(4) o Ddeddf Optegwyr 1989
[5] Adran 13D(2) a (3) o Ddeddf Optegwyr 1989
[6] Calhaem v GMC [2007] EWHC 2606 (Admin)

nid yw "camymddwyn" yn golygu unrhyw achos o dorri dyletswydd sy'n ddyledus gan fusnes cofrestredig neu unigolyn cofrestredig i'w glaf; mae'n awgrymu achos difrifol o dorri dyletswydd sy'n dangos bod amhariad ar addasrwydd y busnes neu'r unigolyn cofrestredig i ymarfer;

- nid yw esgeuluster yn unig yn gyfystyr â "chamymddwyn" ond gall gweithredoedd neu anweithredoedd esgeulus sy'n arbennig o ddifrifol fod yn gyfystyr â "chamymddwyn";

- mae un weithred neu anweithred esgeulus yn llai tebygol o groesi'r trothwy ar gyfer "camymddwyn" na mwy nag un weithred neu anweithred. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai amgylchiadau lle y gellid ystyried bod un weithred neu anweithred esgeulus, os yw'n arbennig o ddifrifol, yn gyfystyr â "chamymddwyn";

- mae "perfformiad proffesiynol diffygiol" yn golygu safon perfformiad proffesiynol sy'n annerbyniol o isel. Byddai un achos o driniaeth esgeulus yn annhebygol o fod yn "berfformiad proffesiynol diffygiol" oni bai ei fod yn ddifrifol iawn. Ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, dylai "perfformiad proffesiynol diffygiol" fod yn seiliedig ar ystyried sampl deg o waith.

## Atgyfeirio Honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

### Amcanion deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer

55. Wrth ystyried a ddylid atgyfeirio achos at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, dylai'r archwilwyr achos gadw mewn cof amcan cyffredinol y Cyngor Optegol Cyffredinol fel y'i nodir yn y ddeddfwriaeth[7].

Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaeth yw diogelu'r cyhoedd.

Mae'r amcan cyffredinol yn cynnwys y nodau canlynol:

(a) Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;

(b) Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Ddeddf;

(c) Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny;

(d) Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad priodol ar gyfer busnesau cofrestredig.

### Posibilrwydd realistig

56. Wrth ystyried a ddylid atgyfeirio honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, dylai'r archwilwyr achos ofyn y cwestiwn canlynol iddynt eu hunain: a oes posibilrwydd realistig o sefydlu bod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer i raddau sy'n cyfiawnhau cymryd camau yn erbyn ei gofrestriad? (gelwir hyn yn **"brawf posibilrwydd realistig"**).

57. Mae hyn yn golygu ystyried dau fater:

- A oes posibilrwydd realistig o allu profi'r ffeithiau a honnir yn erbyn y cofrestrai, os caiff yr honiad ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer?

- Pe bai'r ffeithiau honedig yn cael eu profi, a ydynt mor arwyddocaol fel eu bod

[7] Adran 1(2A) o Ddeddf Optegwyr 1989

yn dangos bod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer, neu y gall fod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer, i raddau sy'n cyfiawnhau cymryd camau yn erbyn ei gofrestriad?

Wrth asesu arwyddocâd, dylai archwilwyr achos nodi, hyd yn oed os nad yw gweithredoedd unigol, ar eu pen eu hunain, yn ddigon difrifol i fod gyfystyr â chamymddwyn, y gall effaith gronnol cyfres o weithredoedd wneud hynny[8].

### Dyfarnu ynghylch amhariad

58. **Nid** rôl yr archwilwyr achos yw penderfynu a **oes** amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer ai peidio – lle'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yw penderfynu hynny (os caiff y mater ei atgyfeirio at y cam hwnnw).

### Ystyriaethau ar gyfer prawf posibilrwydd realistig

59. Wrth ystyried y prawf posibilrwydd realistig, dylai'r archwilwyr achos roi sylw i'r canlynol:

- dylent fynd ati'n ofalus (o ystyried, ymhlith ystyriaethau eraill, mai dim ond o ddogfennau y bydd yr archwilwyr achos yn gweithio a'i bod yn bosibl na fydd y dystiolaeth ger eu bron wedi'i phrofi);

  - nid rôl yr archwilwyr achos yw gwneud unrhyw ganfyddiadau ffeithiol. Mater i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yw gwneud canfyddiadau ffeithiol;

  - dim ond os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, ar ôl clywed y dystiolaeth, yn credu ei bod yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd (y "safon profi sifil") y bydd y Pwyllgor yn dyfarnu bod y ffeithiau y mae'r cofrestrai'n eu herio wedi'u profi;

Fodd bynnag, ni ddylai'r archwilwyr achos (fel arfer) ddatrys anghysondeb sylweddol rhwng tystiolaeth;

- os bydd anghysondeb amlwg rhwng tystiolaeth y naill ochr a'r llall, lle y byddai'n realistig i'r naill neu'r llall fod yn gywir, ac y byddai un ohonynt yn codi amheuaeth ynghylch addasrwydd y cofrestrai i ymarfer, y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ddylai ddatrys yr anghysondeb, nid yr archwilwyr achos;

[8] Schodlok v GMC [2015] EWCA Civ 769

- os bydd yr archwilwyr achos yn ansicr ynghylch a ddylid atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, dylent ystyried fersiwn yr achwynydd o'r mater ar ei eithaf ac yna defnyddio'r prawf posibilrwydd realistig;

- nid rôl yr archwilwyr achos yw atgyfeirio honiad nad yw wedi'i ategu gan dystiolaeth at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Rhaid bod posibilrwydd gwirioneddol (nid posibilrwydd bach na thybiedig) y gallai'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ddyfarnu bod y ffeithiau a honnir wedi'u profi a, phe baent yn cael eu profi, y gallai fod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer;

- wrth benderfynu a yw'r prawf posibilrwydd realistig wedi'i fodloni mewn perthynas â honiad o esgeulustod beius (h.y. bod y cofrestrai wedi methu â gwneud rhywbeth y dylai fod wedi'i wneud), rhaid i'r archwilwyr achos ystyried i) a oes posibilrwydd realistig o brofi bod dyletswydd ar y cofrestrai i wneud y peth penodedig A ii) bod posibilrwydd realistig o brofi bod y cofrestrai wedi methu gwneud y peth penodedig. Os na chaiff y prawf posibilrwydd realistig ei fodloni ar gyfer i) a ii), ni chaiff ei fodloni ar gyfer yr honiad yn gyffredinol;

- mae budd cyhoeddus mewn sicrhau na chaiff busnesau cofrestredig nac unigolion cofrestredig eu poeni gan honiadau di-sail;

- os bydd y prawf posibilrwydd realistig wedi'i fodloni, bydd budd cyhoeddus mewn cynnal gwrandawiad cyhoeddus gerbron y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer;

- dylai'r archwilwyr achos fynd ati'n ofalus wrth ddod i benderfyniad i beidio ag atgyfeirio achos lle y gellir ystyried bod y penderfyniad yn anghyson â phenderfyniad a wnaed gan gorff cyhoeddus arall (er enghraifft, penderfyniad lle y cafwyd mewnbwn gan weithwyr optegol proffesiynol, neu benderfyniad gan un o gyrff y GIG), mewn perthynas â'r un ffeithiau neu'r un ffeithiau i raddau helaeth. Os daw'r archwilwyr achos i benderfyniad o'r fath, dylent roi rhesymau dros unrhyw anghysondeb ymddangosiadol;

- mae gan yr archwilwyr achos hawl i asesu pwysau'r dystiolaeth.

- nid yw presenoldeb gorchymyn interim neu orchmynion interim blaenorol yn berthnasol wrth ystyried a yw'r prawf posibilrwydd realistig wedi'i fodloni. Mae'r prawf a'r ystyriaethau ar gyfer gosod gorchymyn interim yn wahanol mewn sawl ffordd. Ni ddylai presenoldeb gorchymyn interim fod yn ffactor wrth ystyried a ddylid atgyfeirio honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, gan nad yw presenoldeb gorchymyn interim yn gyfystyr â chanfyddiad ffeithiol.

- dylai'r archwilwyr achos nodi'r datganiad ym mhrotocol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar ymdrin ag euogfarnau troseddol a ddatgelir gan gofrestrai ac, yn

benodol, y bydd y Cofrestrydd fel arfer yn rhagdybio yn erbyn cofrestru, adfer cofrestriad neu gadw cofrestrai ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol os bydd ymgeisydd yn datgelu euogfarn am drosedd (sydd wedi'i chynnwys yn Atodlen 4 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000). Mae copi o Brotocol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar ymdrin ag euogfarnau troseddol a ddatgelir gan fusnes cofrestredig neu unigolyn cofrestredig ar gael yn:

Sut i fynegi pryder am optegydd

- dylai'r archwilwyr achos nodi ymhellach y ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer fel rhai sy'n dangos (os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn ystyried yr achos) ei bod yn debygol mai dileu yw'r gosb briodol. Mae'r canllawiau hyn hefyd ar gael yn:

Sut rydym yn ymchwilio i bryder

**Ffactorau lliniarol**

60. Dylai'r archwilwyr achos gadw mewn cof bresenoldeb ffactorau lliniarol a allai arwain at benderfyniad gan yr archwilwyr achos i beidio ag atgyfeirio honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ond dim ond pan fydd y ffactorau lliniarol:

(a) wedi'u hategu'n dda gan dystiolaeth gredadwy;

(b) yn gysylltiedig ag amgylchiadau'r honiad yn hytrach na materion sy'n bersonol gysylltiedig â busnes cofrestredig neu unigolyn cofrestredig; a

(c) mor arwyddocaol fel nad oes posibilrwydd realistig y bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn dyfarnu bod amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer.

A'r effaith debygol ar ystyriaethau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn sgil unrhyw dystiolaeth sy'n dangos:

(a) y gellir unioni methiannau a gyfaddefwyd gan y cofrestrai; a/neu

(b) eu bod eisoes wedi cael eu hunioni;

(c) lefel unrhyw risg o ailadrodd; yn ogystal â'r pwysau y gellir ei roi'n rhesymol i'r dystiolaeth honno.

**Mathau o gamymddwyn ac unioni**

a. Gall fod yn fwy posibl unioni rhai mathau o gamymddwyn na mathau eraill, er enghraifft honiadau ynghylch perfformiad proffesiynol diffygiol. Ni fydd tystiolaeth o'r fath ar gael bob amser a, phan fydd ar gael, mae'n bosibl na fydd yn glir nac yn argyhoeddiadol. Ymhlith yr enghreifftiau o fathau o gamymddwyn y gallai fod yn llai posibl eu hunioni oherwydd eu natur mae camymddwyn rhywiol neu anonestrwydd.

b. Hyd yn oed os bydd yr archwilwyr achos yn fodlon bod tystiolaeth bod cofrestrai wedi unioni ei fethiant, mae'n bosibl y byddant yn dal i benderfynu y byddai er budd y cyhoedd i'r achos gael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Yn *CHRE v Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Grant) [2011] EWHC 927,* dywedodd yr Uchel Lys y dylai'r Pwyllgor, wrth benderfynu a oes amhariad ar addasrwydd i ymarfer, ofyn y cwestiwn canlynol iddo ef ei hun *"Not only whether the Registrant continued to present a risk to members of the public, but whether the need to uphold proper professional standards and public confidence in the Registrant and in the profession would be undermined if a finding of impairment of fitness to practise were not made in the circumstances of this case."*

c. Ni ddylai bodolaeth gorchymyn interim ddylanwadu ar y penderfyniad ynghylch a fyddai er budd y cyhoedd i'r honiad gael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer gan nad yw gorchymyn interim yn golygu bod unrhyw ganfyddiadau ffeithiol wedi'u gwneud.

## Canllawiau ynghylch rhybuddion a roddir gan yr archwilwyr achos

### Nodi seiliau'r amhariad

62. Cyn ystyried rhoi rhybudd, bydd yr archwilwyr achos yn sicrhau bod y seiliau wedi'u nodi'n gywir ar gyfer yr honiad bod amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer o dan adran 13D(2) neu (3) o Ddeddf Optegwyr 1989. Bydd sail yr amhariad fel arfer yn deillio o achos o dorri'r safonau ymddygiad a pherfformiad y disgwylir i weithwyr proffesiynol, myfyrwyr a busnesau optegol eu cyrraedd. Hyd 31 Rhagfyr 2024, roedd y safonau hyn wedi'u cynnwys yn y “Safonau ar gyfer optometryddion, optegwyr cyflenwi a myfyrwyr optegol” a'r “Safonau ar gyfer busnesau cofrestredig”. Er y gall fod adegau pan fydd angen cyfeirio at ganllawiau a gynhyrchir yn allanol (er enghraifft, canllawiau Coleg yr Optometryddion), bydd archwilwyr achos, lle bynnag y bo modd, yn cymhwyso canllawiau, safonau a chymwyseddau a gynhyrchir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol i'w proses gwneud penderfyniadau.

**Safonau wedi'u diweddaru 2025**

63. O 1 Ionawr 2025 ymlaen, mae'r Safonau Ymarfer presennol ar gyfer Optometryddion, Optegwyr Cyflenwi a Myfyrwyr Optegol sy'n ymwneud ag unigolion sydd wedi cymhwyso'n llawn, busnesau perthnasol a myfyrwyr wedi cael eu disodli gan set newydd o Safonau Ymarfer. Mae hyn yn golygu, pan fydd yr archwilwyr achos yn ystyried mater lle digwyddodd yr ymddygiad y cwynir amdano ar ôl 1 Ionawr 2025, y bydd y Safonau newydd yn berthnasol. Ar gyfer materion a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw, bydd y safonau blaenorol yn berthnasol, ond dylai'r archwilwyr achos gyfeirio at y Safonau newydd os byddant o'r farn y bydd hyn yn helpu i lywio ymarfer y cofrestrai yn y dyfodol.

**Enghreifftiau o seiliau dros amhariad**

64. Er enghraifft, gall yr archwilwyr achos ystyried bod ffeithiau'r gŵyn yn gyfystyr â honiad o "gamymddwyn" o dan adran 13D(2)(a) o'r Ddeddf Optegwyr, drwy fethu â pharchu urddas a phreifatrwydd claf yn groes i Safon 1.1.4 y Safonau Ymarfer.

65. Fel arall, gall yr archwilwyr achos ystyried bod ffeithiau'r gŵyn yn gyfystyr â honiad o "gamymddwyn gan y busnes cofrestredig neu gan un o'i gyfarwyddwyr" yn unol ag adran 13D(3)(a) o'r Ddeddf Optegwyr, drwy fethu â chymryd camau rhesymol a chymesur i sicrhau bod deunyddiau hysbysebu neu gyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â chodau ymarfer ar gyfer hysbysebu priodol, yn groes i Safon 2.2.1 ar gyfer Busnesau Cofrestredig.

66. Wrth ystyried honiad, rhaid i'r archwilwyr achos sicrhau bod sail bosibl yr honiad yn erbyn cofrestrai o dan adran 13D wedi'i nodi, fel y gallant asesu'r posibilrwydd o allu profi'r ffeithiau angenrheidiol yn erbyn y cofrestrai er mwyn cynnal yr honiad.

**Rhoi rhybudd i fusnes cofrestredig neu unigolyn cofrestredig**

67. Dim ond ar ôl penderfynu na ddylid atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer y bydd yr archwilwyr achos yn ystyried rhoi rhybudd.

**Osgoi gwneud canfyddiadau neu benderfyniadau**

68. Wrth roi rhesymau dros roi rhybudd, rhaid i'r archwilwyr achos osgoi rhoi'r argraff eu bod wedi gwneud dyfarniad neu benderfyniad ynghylch materion o ffaith mewn perthynas â materion o sylwedd sy'n deillio o'r gŵyn.

**Osgoi gosod ymrwymiad trymach**

69. Rhaid i delerau unrhyw rybudd fod yn glir, ac ni ddylent geisio gosod rhwymedigaeth fwy beichus ar gofrestrai na'r hyn sy'n ofynnol o dan Safonau cyfredol y Cyngor Optegol Cyffredinol. Er enghraifft, os rhoddir rhybudd am dorri'r Safonau ar gyfer Busnesau Cofrestredig, rhaid iddo egluro bod yn rhaid i'r cofrestrai gymryd camau rhesymol a chymesur i gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Safon, yn hytrach na cheisio gosod dyletswydd absoliwt i wneud hynny.

**Arwyddocâd rhybudd**

70. Mae rhybudd gan yr archwilwyr achos yn gofnod o'u pryder, a allai fod yn arwyddocaol er nad oes angen ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Nid yw'r cyfnod amser wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ond penderfynwyd y bydd rhybuddion yn para am bedair blynedd.

**Preifatrwydd rhybudd**

71. Ni fydd rhybudd yn ymddangos ar gofrestr gyhoeddus y Cyngor Optegol Cyffredinol, ond caiff ei gofnodi yn erbyn enw'r cofrestrai yn y gofrestr berthnasol am bedair blynedd o ddyddiad y llythyr rhybudd.

72. Ni fydd archwilwyr achos yn rhoi rhybuddion ond ar ôl i'r cofrestrai gael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach iddynt, ar ôl cael gwybod am natur y rhybudd sy'n cael ei ystyried Rhaid i'r archwilwyr achos ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan gofrestrai a phenderfynu a ddylid rhoi rhybudd yn yr amgylchiadau penodol ai peidio[9].

73. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar rybuddion, sydd ar gael yn: [Canllawiau ar Rybuddion]

## Canlyniadau posibl eraill

**Peidio â chymryd camau pellach**

74. Os bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu nad oes angen atgyfeirio honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer na rhoi rhybudd yn ei gylch, gallant benderfynu cau achos heb gymryd camau pellach.

**Rhesymau dros gau achos gyda 'Dim camau pellach'**

75. Efallai y bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu cau achos a pheidio â chymryd camau pellach:

[9] Yn unol â Rheol 14 o Reolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol

- os na fydd yr honiad yn dangos mater a allai godi amheuon ynghylch addasrwydd cofrestrai i ymarfer; neu

- os na fydd y ffeithiau honedig, hyd yn oed os cânt eu profi, yn ddigon difrifol i achosi amhariad ar addasrwydd y cofrestrai hwnnw i ymarfer i'r graddau a fyddai'n cyfiawnhau cymryd camau yn erbyn ei gofrestriad, ac ystyrir bod rhybudd yn ddiangen; neu

- os gall y ffeithiau honedig, os cânt eu profi, ddangos amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer, ond nad oes posibilrwydd realistig o allu profi'r ffeithiau honedig am resymau tystiolaethol, ac ystyrir bod rhybudd yn ddiangen.

**Rhoi cyngor**

76. Efallai y bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu rhoi cyngor i gofrestrai os bydd yr achos yn cael ei gau. Nid oes gan gyngor o'r fath unrhyw statws ffurfiol; dim ond cyngor ydyw.  Gall penderfyniadau o'r fath gynnwys cyngor ar ymddygiad yn y dyfodol, gan gynnwys cyngor ar ymdrin â chleifion anfodlon yn briodol (ond ni fyddant yn gyfyngedig i hynny). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai'r archwilwyr achos ddrafftio'r cyngor fel ei fod yn glir nad ydynt yn rhoi rhybudd.  Mae rhybudd yn ymateb ffurfiol gan y Cyngor Optegol Cyffredinol i honiad o dan Adran 13D o'r Ddeddf Optegwyr sy'n cael ei gofnodi yn erbyn cofnod cofrestrai yn y gofrestr yw rhybudd, tra bo cyngor yn sylw anffurfiol ar y mater gan yr archwilwyr achos.  Bydd geiriad clir hefyd yn atal trydydd parti sy'n anghyfarwydd â gweithdrefnau'r Cyngor Optegol Cyffredinol rhag camddehongli'r penderfyniad. Lle y bo'n briodol, gall yr archwilwyr achos hefyd gynnwys sylwadau cadarnhaol yn eu cyngor.

**Cofnodi penderfyniadau**

77. Bydd yr holl benderfyniadau a wneir gan yr archwilwyr achos yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau llawn a manwl dros y penderfyniad a wnaed. Rhaid i archwilwyr achos bob amser sicrhau bod eu rhesymeg yn glir, a bod unrhyw gyfraith achosion y cyfeirir ati yn cynnwys enw'r achos yn ogystal â'r dyfarniad. Hefyd, rhaid i'r archwilwyr achos fod yn arbennig o ofalus, er enghraifft:

    - os byddant yn atgyfeirio rhai o'r manylion ffeithiol, ond nid pob un ohonynt, at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, neu os bydd yr honiad yn ymwneud â mwy nag un sail dros amhariad, er mwyn bod yn glir ynghylch pa fanylion ffeithiol a honiadau sy'n cael eu hatgyfeirio, ac ar ba sail dros amhariad;

    - os bydd nifer o ddogfennau wedi cael eu cyflwyno i gefnogi'r honiad, dylai'r penderfyniad nodi'n glir bod y rhain wedi cael eu darllen. Dylai'r penderfyniad gyfeirio at ddogfen(nau)/adran(nau) penodol a nodi sut mae'r rhain yn

berthnasol i’r rhan honno o’r penderfyniad;

- os bydd yr archwilwyr achos yn cytuno bod posibilrwydd realistig o ddyfarnu bod y manylion ffeithiol wedi’u profi ond yn penderfynu peidio ag atgyfeirio'r honiadau oherwydd tystiolaeth o ddealltwriaeth ac unioni. Dylai'r archwilwyr achos nodi pam mae'r dystiolaeth mor argyhoeddiadol fel eu bod yn penderfynu peidio ag atgyfeirio'r honiad o amhariad;

- pan ymddengys bod penderfyniad yr archwilwyr achos, na fydd wedi datrys anghydfodau ffeithiol, yn diystyru canfyddiadau barn arbenigol (gweler paragraff 44).

78. Dylai’r archwilwyr achos hefyd gofio y bydd eu penderfyniad yn cael ei ddarllen gan drydydd partïon a allai fod yn anghyfarwydd â rôl neu weithdrefnau’r Cyngor Optegol Cyffredinol. O'r herwydd, mae angen ysgrifennu eu rhesymau mewn iaith glir i egluro pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a pham.

**Hysbysiad**

79. Yn dilyn penderfyniad yr archwilwyr achos, bydd yr achwynydd/achwynwyr a’r cofrestrai/cofrestreion dan sylw yn cael llythyr gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn nodi penderfyniad yr archwilwyr achos a’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Yn achos unigolion cofrestredig, bydd eu cyflogwr yn cael gwybod am benderfyniad yr archwilwyr achos ond ni fyddant yn cael y penderfyniad llawn.

**Partïon eraill**

80. Gall yr archwilwyr achos gyfarwyddo’r Cyngor Optegol Cyffredinol i atgyfeirio honiad at yr heddlu os bydd yn ymddangos ei fod yn ymwneud â chyflawni trosedd (neu atgyfeirio’r honiad at asiantaeth orfodi arall, fel y bo’n briodol) os bydd yn ymddangos ei fod yn ymwneud â gweithiwr proffesiynol optegol nad yw wedi’i gofrestru â’r Cyngor Optegol Cyffredinol, er enghraifft at y Cyngor Meddygol Cyffredinol os bydd yr honiad yn ymwneud â llawdriniaeth laser ar y llygaid a gyflawnir gan feddyg.

**Atgyfeirio achosion oddi wrth archwilwyr achos at y Pwyllgor Ymchwilio**

81. Bydd yr archwilwyr achos yn gallu delio â'r rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, mae dwy sefyllfa lle mae'n rhaid i'r archwilwyr achos gyfeirio achosion at y Pwyllgor Ymchwilio;

(1) os bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu atgyfeirio unigolyn cofrestredig i gael asesiad iechyd a/neu berfformiad, gan mai dim ond y Pwyllgor Ymchwilio sy'n

gallu cyfarwyddo hynny;

(2) os na fydd yr archwilwyr achos yn unfrydol y eu penderfyniad ynghylch y ffordd briodol o ymdrin â'r mater[10]. Caiff y ddwy sefyllfa hynny eu hesbonio ymhellach isod.

**Asesiadau (iechyd a/neu berfformiad)**

82. Os bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu bod angen rhagor o wybodaeth arnynt am iechyd cofrestrai a/neu safon neu ansawdd ei waith cyn y gallant ddod i benderfyniad ynghylch yr achos, bydd yn rhaid iddynt atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio, gan ofyn am benodi asesydd (neu aseswyr) a chyfarwyddo asesiad (neu asesiadau). Gall y Pwyllgor Ymchwilio gyfarwyddo y dylid cymryd unrhyw un neu ragor o'r camau ymchwilio canlynol (gan gynnwys mwy nag un asesiad os bydd angen):

- asesiad o iechyd yr unigolyn cofrestredig[11]; neu
- asesiad o berfformiad yr unigolyn cofrestredig[12]

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar asesiadau perfformiad, sydd ar gael yn: [Sut rydym yn ymchwilio i bryder]

**Paratoi adroddiad**

83. Rhaid i'r Pwyllgor Ymchwilio nodi'r materion y mae'r cofrestrai i gael ei asesu arnynt. Os penodir mwy nag un asesydd mewn perthynas ag asesiad perfformiad, rhaid i'r aseswyr gyda'i gilydd baratoi adroddiad ar y cyd ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio. Ar gyfer asesiad iechyd, bydd pob asesydd yn paratoi adroddiad. Anfonir copi at y cofrestrai o'r holl adroddiadau a baratowyd, a bydd yn gallu cyflwyno sylwadau ar yr adroddiad(au) i'r Cofrestrydd o fewn 28 diwrnod i'w derbyn[13].

**Rôl cydweithrediad y cofrestrai wrth asesu**

84. Os bydd cofrestrai'n cydweithredu a bod asesiad (neu asesiadau) wedi'u cynnal, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r honiad yn ôl at yr archwilwyr achos. Bydd yr archwilwyr achos yn cael copi o'r adroddiad (neu'r adroddiadau) asesu,

---

[10] Rheolau 12 a 13 o Reolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol

[11] Yn unol â Rheol 6 o Reolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol

[12] Fel uchod

[13] Yn unol â Rheolau 10(4) a (5) o Reolau (Addasrwydd i Ymarfer) 2013 y Cyngor Optegol Cyffredinol

ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd gan y cofrestrai. Bydd yr archwilwyr achos yn ailddechrau ystyried y mater dan ddarpariaethau rheol 12.

85. Os na fydd cofrestrai'n cydweithredu ag asesiad (neu asesiadau) neu os bydd yn gwrthod cael asesiad, ni ddylai'r Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r honiad yn ôl at yr archwilwyr achos i'w benderfynu ac, yn hytrach na hynny, dylai fynd ati i ystyried yr honiadau ei hun. Dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr archwilwyr achos yn ymwneud ymhellach â'r achos.

**Os na fydd yr archwilwyr achos yn gallu dod i benderfyniad unfrydol**

86. Caiff achosion eu hystyried gan archwiliwr achos lleyg ac archwiliwr achos cofrestredig. Rhaid i'r archwilwyr achos ddod i benderfyniad unfrydol ynghylch honiad penodol. Os na fyddant yn gallu dod i benderfyniad unfrydol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Cofrestrydd a bydd y Cofrestrydd yn atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio. Wedyn, bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu sut i ddatrys yr achos yn dilyn y broses gwneud penderfyniadau sydd wedi'i nodi yn y canllawiau hyn.

    Sut rydym yn ymchwilio i bryder

**Adolygu penderfyniad i beidio ag atgyfeirio**

87. Ar unrhyw adeg o fewn pum mlynedd ar ôl i benderfyniad archwiliwr achosi i beidio ag atgyfeirio gael ei wneud, gall yr archwilwyr achos adolygu'r penderfyniad gwreiddiol. Fodd bynnag, dim ond os bydd yr archwilwyr achos o'r farn bod tystiolaeth neu wybodaeth newydd sy'n golygu bod adolygiad yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, yn angenrheidiol er mwyn atal anghyfiawnder i gofrestrai, neu'n angenrheidiol fel arall er budd y cyhoedd, y gellir cynnal adolygiad. Fel arall, gall archwilwyr achos gynnal adolygiad os oes gwybodaeth ar gael i ddangos bod y Cyngor Optegol Cyffredinol wedi gwneud camgymeriad wrth ddelio â'r achos yn weinyddol, a bod angen ei adolygu er budd y cyhoedd.
88. Os caiff adolygiad ei gynnal, bydd y Cofrestrydd yn rhoi gwybod i'r cofrestrai (ac, yn achos ymarferwyr unigol, eu cyflogwr) a'r achwynydd bod gwybodaeth newydd ar gael, a bydd yn rhannu'r wybodaeth honno os bydd hynny'n briodol. Caiff y cofrestrai a'r achwynydd (os oes un) gyflwyno sylwadau. Wedyn, bydd yr archwilwyr achos yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael. Gall yr archwilwyr achos benderfynu:

    - y dylai'r penderfyniad gwreiddiol sefyll;
    - y gellir rhoi rhybudd;
    - atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer; neu
    - tynnu unrhyw rybudd a roddwyd yn flaenorol oddi ar gofnod y cofrestrai.

## Terfynu atgyfeiriad

89. Os bydd honiad wedi cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, gall yr archwilwyr achos adolygu’r atgyfeiriad. Os bwriedir cynnal adolygiad, bydd y Cofrestrydd yn ysgrifennu at yr achwynydd ac yn rhoi cyfle iddo wneud sylwadau. Mae’n arfer da gofyn am sylwadau’r unigolyn cofrestredig hefyd (dylid rhoi 28 diwrnod i’r ddau wneud sylwadau). Wedyn, bydd yr archwilwyr achos yn ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac, os byddant yn penderfynu na ddylai’r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ystyried yr achos, byddant yn rhoi cyfarwyddyd i’r Cofrestrydd a fydd yn rhoi gwybod i’r partïon perthnasol.

90. Os yw'r archwilwyr achos yn adolygu atgyfeiriad lle nad yw tyst neu achwynydd bellach yn cydweithredu â'r ymchwiliad, dylai'r archwilwyr achos gadw mewn cof bwerau ymchwilio'r Cyngor Optegol Cyffredinol ei hun o dan Adran 13B o'r Ddeddf Optegwyr. Gall yr atgyfeiriad barhau heb gydweithrediad y tyst/achwynydd os bydd yr archwilwyr achos o’r farn y byddai hynny er budd y cyhoedd, ond bydd angen i’r archwilwyr achos ystyried pwysau’r dystiolaeth sydd ar gael ac, felly, a ellir bodloni’r prawf posibilrwydd realistig o hyd.

## Canllawiau i archwilwyr achos ar ddyfarniadau gan reoleiddwyr eraill

91. Yn unol ag adran 13D(5) o Ddeddf Optegwyr 1989 (“y Ddeddf”), mae’n ofynnol i’r archwilwyr achos ymchwilio i honiad (y cyfeirir ato’n aml fel cwyn) a wnaed wrth y Cyngor Optegol Cyffredinol sy'n honni y gall fod amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer, addasrwydd busnes cofrestredig i gynnal busnes, neu addasrwydd myfyriwr cofrestredig i ymgymryd â hyfforddiant (adran 13D(1) o’r Ddeddf).

92. Yn ôl adran 13D(2) o’r Ddeddf, mae’r unig seiliau dros “amhariad” ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer, neu addasrwydd myfyriwr cofrestredig i ymgymryd â hyfforddiant, at ddibenion y Ddeddf fel y'u nodir yn adran 13(2)(a)-(g). Mae’r seiliau hyn yn cynnwys “camymddwyn” (adran 13(2)(a)), ac hefyd *“a determination by a body in the United Kingdom responsible under any enactment for the regulation of a health or social care profession to the effect that his fitness to practise as a member of that profession is impaired, or a determination by a regulatory body elsewhere to the same effect*” (adran 13D(2)(g)).

93. Yn ôl adran 13D(3) o’r Ddeddf, mae’r unig seiliau dros “amhariad” ar addasrwydd busnes cofrestredig i gynnal busnes at ddibenion y Ddeddf fel y'u nodir yn adran 13D(3)(a)-(g). Mae'r seiliau hyn yn cynnwys “camymddwyn gan y busnes cofrestredig neu gan un o'i gyfarwyddwyr” (adran 13D(3)(a)), ac hefyd *“a determination by a body in the United Kingdom responsible under any enactment for the regulation of a health or social care profession to the effect that-*

(i) *the business registrant’s fitness to carry on business as a member of that profession is impaired; or*
(ii) *the fitness of a director of the business registrant to practise that profession is impaired, or a determination by a regulatory body elsewhere to the same effect”* (adran 13D(3)(g)).

94. Bydd y pwyntiau isod yn helpu i benderfynu ar statws tystiolaethol dyfarniad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer neu gynnal busnes gan reoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall yn y DU at ddibenion adran 13D(2)(g) neu (3)(g).

95. Bydd dyfarniad ynghylch addasrwydd person i ymarfer gan reoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall yn y DU yn dystiolaeth bendant bod y ffeithiau wedi'u profi mewn perthynas â’r penderfyniad hwnnw. Yr unig dystiolaeth y gellir ei chyflwyno i wrthbrofi penderfyniad ardystiedig o'r fath yw tystiolaeth sy'n profi nad y person hwnnw yw'r person y cyfeirir ato yn y dystysgrif.

96. Y rheswm dros hyn yw, yn achos rheoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill yn y DU, bydd y panel disgyblu wedi gwneud y penderfyniad ar ôl cynnal gwrandawiad yn unol â’r broses gyfreithiol briodol. Bydd y rheoleiddiwr wedi bod yn gyfrifol am brofi’r honiadau i’r safon profi ofynnol. Bydd cynrychiolaeth gyfreithiol y partïon wedi cael ei chaniatáu. Efallai y bydd y panel wedi ystyried ac asesu tystiolaeth lafar a brofwyd dan groesholi, ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd gan y partïon. Bydd y panel wedi cael cyngor cyfreithiol, gan gynghorydd cyfreithiol annibynnol neu gan aelod o'r panel, cyn dod i’w benderfyniad. Bydd penderfyniad y panel wedi cynnwys y rhesymau dros ei ddyfarniad.

97. Felly, yn achos penderfyniad gan reoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall yn y DU, gall yr archwiliwr achos ddibynnu ar y penderfyniad hwnnw fel sail ddibynadwy dros atgyfeirio’r honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae hyn ar y sail bod posibilrwydd realistig o allu profi’r ffeithiau yn unol â dyfarniad y rheoleiddiwr arall, a’u bod mor arwyddocaol fel eu bod yn dangos amhariad neu amhariad posibl ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer i’r fath raddau ag sy’n cyfiawnhau cymryd camau yn erbyn ei gofrestriad.

**Canllawiau ar asesu statws tystiolaethol dyfarniadau'r ASA sy'n cynnwys cofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol.**

98. Yr ASA yw’r corff annibynnol sy’n gyfrifol am reoleiddio hysbysebwyr yn y Deyrnas Unedig. Pan fydd cwyn yn dod i law, bydd yn ystyried ac yn penderfynu a yw hysbysebwr wedi gweithredu’n groes i God y DU ar Hysbysebu heb Ddarlledu, Hybu Gwerthiannau a Hysbysebu Uniongyrchol (Codau CAP). Caiff ei benderfyniad ei gyhoeddi fel dyfarniad. Gall yr hysbysebwr wneud cais i ddyfarniad yr ASA gael ei adolygu gan Adolygwr Annibynnol Dyfarniadau’r ASA.

99. Nid yw’n anarferol i ddyfarniad gan yr ASA yn erbyn un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol, sef busnes cofrestredig fel arfer, gael ei anfon at y Cyngor Optegol Cyffredinol er mwyn ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau disgyblu yn erbyn y cofrestrai. Os caiff dyfarniad gan yr ASA ei anfon at yr archwiliwr achos i ymchwilio iddo a'i ystyried, rhaid i'r archwiliwr achos archwilio statws y dyfarniad hwnnw mewn perthynas ag unrhyw honiad yn erbyn y cofrestrai ar un o'r seiliau o dan adran 13D(2) neu (3) o'r Ddeddf.

100. Yn y paragraffau canlynol, bydd y canllawiau’n ymdrin â dyfarniadau gan yr ASA yn erbyn busnes sydd wedi’i gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ond bydd egwyddorion tebyg yn berthnasol i ddyfarniadau yn erbyn unigolion cofrestredig.

101. Yn wahanol i ddyfarniad gan reoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall yn y DU, nid yw dyfarniad gan yr ASA yn erbyn un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol, ynddo’i hun, yn sail dros amhariad o dan adran 13D(2) neu (3) o’r Ddeddf. Felly, mae'n bwysig i'r archwiliwr achos nodi ar y dechrau y sail bosibl o dan adran 13D ar gyfer honiad yn erbyn y cofrestrai. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr unig sail bosibl fydd “camymddwyn gan y busnes cofrestredig neu un o’i gyfarwyddwyr” o dan adran 13D(3)(a), oherwydd achos posibl o dorri’r Safonau ar gyfer Busnesau Cofrestredig.

102. Rhaid i’r archwiliwr achos beidio â thybio y bydd dyfarniad gan yr ASA, heb ragor o dystiolaeth, yn profi ei hun yn yr un ffordd ag euogfarn, neu y bydd dim ond y ffaith bod dyfarniad gan yr ASA yn bodoli yn profi bod y Safonau ar gyfer Busnesau Cofrestredig wedi’u torri’n awtomatig.

103. Bydd statws tystiolaethol dyfarniad gan yr ASA yn debygol o fod yn dderbyniol mewn gwrandawiad gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer fel tystiolaeth prima facie bod y cofrestrai wedi gweithredu yn groes i'r Codau CAP. Fodd bynnag, gallai’r cofrestrai wrthod y canfyddiad hwnnw drwy geisio cyflwyno tystiolaeth i fynd y tu ôl i ddyfarniad yr ASA. Mae proses ddyfarnu’r ASA yn wahanol iawn i’r hyn a ddefnyddir mewn gwrandawiadau disgyblu gerbron rheoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill yn y DU. Nid oes gan yr ASA bŵer i ystyried amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Ni chynhelir gwrandawiadau, a chaiff yr holl broses ei chynnal ar bapur, gyda’r hysbysebwr yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Felly, ni chaiff tystiolaeth lafar ei phrofi drwy groesholi. Bydd y baich profi ar yr hysbysebwr am y bydd yn rhaid iddo brofi nad yw wedi gweithredu'n groes i’r Codau'r CAP (h.y. bydd yr ASA yn defnyddio baich profi sy'n groes i'r hyn a ddefnyddir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol a rheoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill yn y DU). Nid yw'r corff dyfarnu yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud ei ddyfarniad. Felly, efallai y bydd modd i gofrestrai ddadlau na ddylid rhoi llawer o bwys ar broses ddyfarnu’r ASA.

104. Wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio honiad ar sail dyfarniad gan yr ASA at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, rhaid i’r archwilwyr achos ystyried y sylwadau a wnaed gan y cofrestrai mewn ymateb i’r honiad o dan Reol 5 o’r Rheolau.

105. Mae'n bosibl y bydd yr archwilwyr achos o’r farn bod y deunydd yn dangos bod y cofrestrai wedi cymryd camau digonol i gydymffurfio â’r dyfarniad ac, os felly, gall yr archwilwyr achos benderfynu peidio â chymryd camau.

106. Efallai y bydd yr archwilwyr achos o'r farn bod anghytundeb ynghylch a ellir cyfiawnhau dyfarniad yr ASA bod y Codau CAP wedi'u torri, a/neu a yw'r cofrestrai wedi cymryd camau rhesymol a chymesur i gydymffurfio â’r Codau'r CAP. Os felly, mae’n bosibl y bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu atgyfeirio’r honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Ni chaiff yr archwilwyr achos wneud unrhyw ganfyddiadau ffeithiol.

107. Os bydd yr archwilwyr achos yn penderfynu peidio ag atgyfeirio’r honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, bydd ganddynt y pŵer i roi rhybudd i’r cofrestrai o dan adran 13D(7) o’r Ddeddf. Wrth benderfynu rhoi rhybudd, rhaid i'r archwilwyr achos gymryd gofal i sicrhau nad yw'n ymddangos eu bod yn gwneud canfyddiadau ffeithiol ar faterion perthnasol y mae anghydfod yn eu cylch mewn perthynas â'r honiad. Os bydd rhybudd yn cael ei ystyried, dylid cyfeirio at y canllawiau ar wahân ynghylch rhybuddion.

**Canllawiau ar asesu statws tystiolaethol canfyddiadau gan reoleiddwyr neu dribiwnlysoedd eraill.**

108. Gall yr archwilwyr achos fod o'r farn bod anghydfod ynghylch statws tystiolaethol unrhyw ganfyddiadau gan dribiwnlys neu reoleiddiwr arall nad yw'n ymwneud â gofal iechyd yn erbyn un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol. Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i’r archwilwyr achos archwilio hyn yn unol â’r egwyddorion a nodir uchod mewn perthynas â dyfarniadau gan yr ASA. Ym mhob achos, bydd angen archwilio natur proses gwneud penderfyniadau’r tribiwnlys neu’r rheoleiddiwr perthnasol, a phenderfynu a oedd yn deg. Bydd canfyddiad gan lys barn sifil yn dystiolaeth prima facie gref o'r ffeithiau a brofwyd[14]. Bydd canfyddiad gan reoleiddiwr arall heb bŵer i ystyried addasrwydd i ymarfer, ac sy'n gweithredu baich profi gwrthdro, yn fwy agored i her a gwrthateb.

[14] Gweler achos Neelu Chadhari